**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 3 Mai 2018**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Illtud Dunsford, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Keith Smyton (Llywodraeth Cymru) (Eitem 4)
Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)
Stewart Whitehead, Rheolwr Prosiectau a Gwerthiant, Oritain (Eitem 5b)
Alison Wright (Calland Wright Consulting Cyf.) (Eitem 11)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 5a a 5b)

**Tîm Rheoli:** Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd:-

- 9 – 19 Mawrth 2018 – Bu'r Cadeirydd ar daith Rhaglen Integreiddio Cadwyn Gyflenwi'r Sector Cig Coch i Seland Newydd (taith ymchwil Defra).

- 3 Ebrill 2018 – Cafwyd cyflwyniad ar weithgaredd HCC a Brexit gan y Cadeirydd i grŵp o Undeb Amaethwyr Cymru Sir Benfro.

- 26 Ebrill 2018 – Bu'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfod o Grŵp Ymgynghori Ewropeaidd Prif Weinidog Cymru. Cafodd y cyfarfod gyflwyniad dylanwadol gan Elmar Brok ASE am ei farn ynghylch Cytundeb Ymadael Brexit.

- 30 Ebrill 2018 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Ford Gron Brexit Ysgrifennydd y Cabinet.

- 2 Mai 2018 – Yn bresennol yn swyddfa HCC.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **I gael cyflwyniad ar "Cymru – y Genedl Fwyd"**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Keith Smyton (Pennaeth yr Adran Fwyd) ar sawl agwedd ar swyddogaeth Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd diweddariad am y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020 ac effaith bosibl Brexit ar y fasnach fwyd a diod yn y DG, megis tarfu ar y cadwyni cyflenwi, rhwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn dariff, a chwotâu tariff.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant yng Nghymru ar hyn o bryd, er enghraifft:-

- Safonau Cyffredinol a fframweithiau'r DG
- Agweddau ar Fasnach ac Ymddygiad
- Cystadleugarwch / Cynhyrchiant
- Cadwyn gyflenwi gyflawn
- Cynhyrchu yn lle mewnforio / dirlawnder rhanbarthol
- Y Llwybr i'r Farchnad (Y DG a rhyngwladol)
- Pwysigrwydd Rhwydweithio (EIT)

Nodwyd bod HCC yn gweithio'n glos a'r Is-adran Fwyd, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth a phresenoldeb mewn arddangosfeydd bwyd gartref a thramor – megis Food and Hotel Asia, Singapôr, 24 – 27 Ebrill 2018; SIAL, Montreal, Canada 2 – 4 Mai 2018. Ymhlith y digwyddiadau nesaf roedd ymweliad Datblygu Masnach i Doha, Catar, 29 Medi – 3 Hydref 2018.

Roedd HCC wedi cytuno i fod yn un o'r noddwyr yn nigwyddiad Llywodraeth Cymru, "Blas ar Gymru", sef cynhadledd bwysig i'r fasnach fwyd a diod a gynhelid yn y Celtic Manor yn ystod mis Mawrth 2019.

5. **Olrheinedd bwyd, esgeuluso diogelwch bwyd a hyder y defnyddiwr**

Ymunodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch â'r cyfarfod ar gyfer y ddwy eitem a ganlyn:

a. *I gael cyflwyniad ar broses gyfredol archwilio PGI Cymru*

Cafwyd cyflwyniad ar yr uchod gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch er mwyn i'r Bwrdd gael gwybod am y broses.

Cytunwyd y dylid darparu papur biffio ar ddynodiadau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI ar gyfer y cyfarfod nesaf.

b. *I gael cyflwyniad ar wella'r broses o archwilio PGI Cymru trwy ddefnyddio gwasanaeth olrheinedd gwyddonol Oritain*

Cafodd Stewart Whitehead ei gyflwyno gan y Cadeirydd i roi cyflwyniad ar yr uchod:-

Roedd HCC wedi comisiynu Oritain (sefydliad o Seland Newydd sy'n arbenigo mewn technegau gwyddonol fforensig i brofi tarddiad cynhyrchion amaethyddol) i ymgymryd â gwaith sy'n cynnwys rhaglen Gwirio Tarddiad. Gwneid hyn er mwyn cyflwyno dulliau olrheinedd gwyddonol ar gyfer Cig Oen Cymru PGI, a fyddai'n gwella enw da brand HCC, yn lleihau risg ac yn cynnig nodwedd heb bris i gleientiaid a darpar gleientiaid.

Mae Rhaglen Olion Bysedd Tarddiad Oritain ar gyfer Cig Oen Cymru PGI yn seiliedig ar samplau wedi eu cymryd ledled Cymru er mwyn gwneud yn siŵr fod y rhaglen yn ystyried y gwahaniaethau mewn ŵyn a anfonir i'w lladd o ran daearyddiaeth leol, brid, rheolaeth, oed a phorthiant. Pan brofwyd y rhaglen am y tro cyntaf, roedd y samplau yn gyson â'r tarddiad honedig (roedd 99% o'r samplau yn gwbl gyson). Roedd profion pellach yn cael eu cynnal i wneud yn siŵr fod y model yn llwyr ddibynadwy cyn i'r rhaglen gael ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru 2018.

6. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Mawrth 2018 (HCC 808)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Mawrth 2018 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

7. **Materion yn codi**

*Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol drafft HCC hyd at 2025*

Lansiwyd yr uchod yn ystod digwyddiad Tir Glas Sioe Frenhinol Cymru yng Ngharnbwll, Four Crosses, Powys ddydd Mercher 16 Mai 2018..

Nodwyd bod trafodaeth wedi parhau â Llywodraeth Cymru ynghylch ymgyfuniad Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Cig Coch Cymru (Cynllun Gweithredu tan 2020) a Gweledigaeth HCC hyd at 2025.

*Cymorth ariannol o £50m wedi ei deilwra o Gronfa Bontio'r UE wrth i'r DG baratoi i adael yr UE / Parodrwydd y Sectorau – ôl-Brexit*

Nodwyd bod y gwaith yn parhau i gefnogi Is-adran noddi Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno cynnig i Gronfa Bontio'r UE ar gyfer cynllun meincnodi i ffermwyr defaid a chig eidion.

*Cynllun Corfforaethol HCC 2018 / 2021 a Chynllun Gweithredol 2018 / 2019*

Roedd y naill ddogfen a'r llall yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Ysgrifennydd y Cabinet.

8. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 809)*

Cymerwyd bod yr adroddiad gweithgareddau wedi'i ddarllen.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 810)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2018 (HCC 811)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Roedd y gwariant o fewn £10k i'r cyfanswm a ragwelwyd ond roedd yr incwm ardoll yn £96k yn fwy na'r gyllideb. Y rheswm am hyn oedd bod mwy o ddefaid na'r disgwyl wedi cael eu lladd yn ystod chwe mis olaf y flwyddyn

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 812)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

e. *I gael diweddariad ar lafar am Gynlluniau Ôl-Brexit, sef Cynllunio wrth Gefn a'r Cynllun Da Byw Ecogyfeillgar*

Adroddodd y Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant fel a ganlyn:-

*Gweithgaredd Cynllunio Wrth Gefn*

Roedd HCC yn gwneud cynnydd yn hyn o beth. Amcan y gwaith fyddai:-

- gwneud gwerthusiad llawn o'r perfformiad cynhyrchu presennol er mwyn canfod cyfleoedd a gwendidau posibl
- cydweithio â'r sectorau manwerth a gwasanaeth bwyd i wneud yn siŵr fod cyflenwad yn cyfateb i'r galw
- archwilio i ganlyniadau 'ymyl-y-dibyn' nas rhagwelwyd, gan gynnwys materion iechyd

*Cynlluniau Amgylcheddol / Cynhyrchu ar gyfer y Dyfodol*

Roedd HCC yn ystyried sut y gellid darparu fframwaith gwledig / amaethyddol yn y dyfodol er mwyn gwella enw da Cymru o ran cynnyrch a'r amgylchedd.

9. **Pwyllgorau HCC**

*I gael y cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Mawrth 2018 (HCC 813)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*I gael cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Mawrth 2018 (HCC 814)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu*

*I gael adroddiad llafar am gyfarfod telegynhadledd y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 26 Ebrill 2018-*

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor y bu trafod ynghylch sefyllfa HCC yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Roedd y swyddogion gweithredol wrthi'n cynllunio gweithgareddau ar y stondinau drwy gydol y Sioe.

Cafwyd trafod ynghylch Cynhadledd Flynyddol HCC 2018, ac roedd lleoliadau posibl – megis maes Sioe Frenhinol Cymru neu Theatr Hafren, Y Drenewydd – yn cael eu hystyried.

*I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 (HCC 815)*

Rhoddwyd yr uchod gerbron y Bwrdd a chafodd ei dderbyn ganddo.

*I gael adroddiad llafar am Bwyllgor Gwaith Iechyd a Lles Diadelloedd a Buchesi a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Mai 2018*

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor:

Roedd y Pwyllgor wedi cael diweddariadau a chyflwyniadau llawn gwybodaeth fel a ganlyn:-

- Diweddariad APHA – Moyna Richey
- Diweddariad ar y Rhaglen i Ddileu BVD yng Nghymru – Dr Neil Paton
- Gweithgaredd Cyswllt Ffermio ynghylch iechyd anifeiliaid – Dewi Hughes

- Cynllunio Iechyd Anifeiliaid – John Richards / James Ruggeri (HCC)
- Diweddariad am waith HCC ar iechyd a lles – John Richards (HCC)

Rhoddid ystyriaeth i gael cynrychiolaeth o blith y proseswyr ar y Pwyllgor a byddai Cadeirydd y Pwyllgor a'r Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant yn cymryd camau ynglŷn â hyn.

Byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi cyflwyniad i'r Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ddydd Gwener 25 Mai 2018.

10. *I gael diweddariad llafar ynghylch cais HCC ar ran y Diwydiant Cig Coch am gyllid ar gyfer y Fenter Strategol gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020*

Rhoddodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant ddiweddariad ar yr uchod : Yn gryno:-

Roedd HCC wedi gwneud cais gwerth £9.2 miliwn i Lywodraeth Cymru ar gyfer tri phrosiect a oedd yn rhan o'r "Rhaglen Datblygu Cig Coch"..

Y prosiectau yw:-

1. Asesu effaith Iechyd a Lles Anifeiliaid rhagweithiol ar gynhyrchu cig coch

2. Gwerthuso gallu cynllun Hyrddon Mynydd newydd i wella perfformiad y ddiadell genedlaethol yng Nghymru

3. Datblygu ansawdd bwyta yn seiliedig ar system raddio ar gyfer Cig Oen Cymru.

Pe bai'r cais yn llwyddo, rhagwelid y byddai gwaith ar y prosiectau yn dechrau yn ystod haf 2018.

11. *I gael gwybodaeth ar lafar am y broses werthuso ar gyfer y Bwrdd Cyfarwyddwyr*

Cafodd Alison Wright ei chyflwyno gan y Cadeirydd. Dywedodd y byddai hi'n ei gynorthwyo yn y gwaith o werthuso'r Bwrdd.

Câi dyddiadau posibl, gwybodaeth am y broses a gwaith papur i'w gwblhau eu rhannu â'r Bwrdd maes o law.

Yn ogystal, gwahoddid y Bwrdd i gymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer y Cadeirydd. Byddai hyn yn seiliedig ar gyfres o gymwyseddau craidd a byddai cyfle i gynnig sylwadau pellach pe bai angen. Byddai'r cymwyseddau yn fframwaith ar gyfer proses gwerthuso ffurfiol y Cadeirydd a gwneid y gwerthuso gan Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru, y Prif Weithredwr a Rachael Madeley-Davies.

Byddai manylion pellach yn cael eu hanfon at y Bwrdd maes o law.

12. **Papurau er gwybodaeth**

Cymerwyd bod y papurau a ganlyn wedi'u darllen.-

a. Polisi Tâl Cydnabyddiaeth a Threuliau Cyfarwyddwyr HCC (HCC 816)

b. Portffolio cyfredol HCC ar gyfer Y&D a Chyfnewid Gwybodaeth (HCC 817)

c. Prosiect y Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yng Nghymru (HCC 818)

d. Adroddiad y Cadeirydd am daith Rhaglen Integreiddio Cadwyn Gyflenwi'r Sector Cig Coch i Seland Newydd (Taith Ymchwil Defra) (HCC 819).

13. **Unrhyw fater arall**

*Staff*

Nodwyd bod recriwtio ar waith ar gyfer Arweinydd / Rheolwr Cyflawni Rhaglenni. Câi'r hysbyseb ei hanfon at y Bwrdd er mwyn ei rhannu.

14. **Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**

Telegynhadledd ddiweddaru Bwrdd HCC –y dyddiad i'w gadarnhau.
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 5 Gorffennaf 2018.

**Llofnodwyd…………………………...............................….**
**Cadeirydd HCC**